61. Rhos Glyn-yr-Helyg

Gorsgoch, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 198 yr A.O. Aberteifi a Cheinewydd. Prif fynedfa: SN497511; Canolfan y safle: SN498514
Statws	Wedi'i ddynodi fel SoDdGA.
Daliadaeth	Prynwyd rhydd-ddaliadaeth y warchodfa yn 1979 gan ddefnyddio arian a godwyd drwy gyfrwng Apêl Bywyd Gwyllt Dyfed a gyda chymorth grant gan NCC a CFEN.
Maint	15 he (37 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Dylid gadael pentref Gorsgoch i gyfeiriad y de-ddwyrain am 150m ar y ffordd fechan i Lyn-yr-Helyg. Parcio ar ochr y ffordd ger y fynedfa i lôn Glyn-yr-Helyg (SN486502). Wedi cyrraedd fferm Glyn-yr-Helyg (ar droed), ewch yn eich blaen drwy'r buarth i'r giât gyferbyn ac ar hyd y trac sy'n edrych dros y warchodfa ar y giât fynediad yn SN497511. Dim llwybrau troed ffurfiol, ond mynediad agored. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Mae bws rhif 460 yn gadael o Aberteifi yn rheolaidd ac yn stopio yn Llechryd, 0.5 km i'r gogledd-ddwyrain o'r warchodfa.

Disgrifiad: Porfa heb ei gwella yn llawn hesg.
Mae rhan helaeth o hanner deheuol y safle yn Wellt y Gweunydd gyda Brwyn Blodeufain a Brwyn Llyfn. Yng nghanol y brwyn hwn ceir darnau helaeth o Fara'r Cythraul (7-9) (y planhigyn sy'n fwyd i löyn byw Brith y Gors (5-7)), Distrewlys (7-10) a Charwe Troellog (6-8). Fel gwrthgyferbyniad, mae'r rhan ogleddol yn laswelltir sychach, gyda chyfoeth o blanhigion yn blodeuo, fel y Bengaled Benddu (6-9), Clust y Gath (6-10), Effros (5-10) a Chribellau Cochion (4-6), gyda Banadl Aur (6-10) a pheth Grug (8-10). Ymhlith y rhywogaethau prin mae Lloerlys (6-8) a Llysiau'r Ysgyfarnog (6-8). Ers i'r Ymddiriedolaeth brynu'r safle, mae cyfanswm o 240 o rywogaethau o blanhigion wedi'u cofnodi ar y safle.

Ymhlith yr adar sy'n magu yma mae Titw'r Helyg, Crec yr Eithin, Telor yr Hesg a'r Troellwr Bach. Mae'r Gïach Gyffredin a'r Cyffylog yn defnyddio'r safle yn ystod y gaeaf.

Mae presenoldeb pantiau yn ychwanegu at ddiddordeb y safle a chredir mai gweddillion nodweddion rhewlifol yw'r rhain, ac fe'u gelwir yn bingoau. Mae'r ceudyllau hyn yn gartref i gymunedau corsiog gyda chyfoeth o rywogaethau, yn cynnwys Llafn y Bladur (6-8), Mwsoglau Cors, Hesg Gylfinfain (5-8), Grug Croesddail (6-10) a Phumbys y Gors (4-7). Mae tri deg pedwar rhywogaeth o fwsoglau a 10 rhywogaeth o lysiau'r afu wedi'u cofnodi yma.

Mae'r Fursen Goch Fechan (6-8) a'r Cribwr Gwrymiog (6-8) i'w gweld o amgylch y corsydd basn hyn, a'r Fursen Resog (6-8) ar Afon Grannell gerllaw, sydd hefyd yn cael ei defnyddio gan Ddyfrgwn. Mae'r safle'n un da ar gyfer infertebrata, gyda 18 rhywogaeth o löynnod byw, yn cynnwys poblogaeth fechan o löyn byw Brith y Gors a'r Gwyfyn Coediwr.

rhos glyn-yr-helyg2 1 7/7/06 3:51:56 pm



Nodau Rheoli: Mae'r safle'n cael ei bori gan wartheg yn ystod yr haf a chan ferlod yn ystod y gaeaf, i gynnal yr amrywiaeth botanegol a hefyd uchder amrywiol y glaswellt, sy'n angenrheidiol i löyn byw Brith y Gors. Mae'r pingoau a'r glaswelltir yn cael eu rheoli i'w hatal rhag ymledu'n ormodol.

Amser da i ymweld	
Ebrill - Medi	Blodau'r glaswelltir gwlyb
Mai - Gorffennaf	Glöynnod byw ac adar yn magu
Mehefin	Glöyn byw Brith y Gors
Mehefin - Awst	Gweision y neidr a phryfed eraill

rhos glyn-yr-helyg2 2 7/7/06 3:51:57 pm